

UNLIMITED...

Cwestiynau Mynych

Ar gyfer Prif Wobrau Ymchwil a Datblygu 'Unlimited' 2017

Cysylltwch â ni os hoffech dderbyn y wybodaeth hon mewn fformat gwahanol.

Sut ydw i'n gwneud cais?

Mae gan 'Artsadmin' borth ar-lein ar gyfer yr holl geisiadau i 'Unlimited'.

I'ch rhoi ar ben ffordd sut i lenwi'r ffurflen gais ewch i

<http://weareunlimited.org.uk/apply-to-unlimited/>

Os na allwch gyrchu'r safle hwn, gallwch wneud cais drwy ddefnyddio fersiwn 'Word' o'r ffurflen gais. I wneud hyn, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am fynediad i'r safle gwneud cais, cysylltwch â Sara Dziadik yn Shape ar 020 7424 7336 / sara@shapearts.org.uk.

Pryd alla i wneud cais?

Mae'r porth gwneud cais Mynegi Diddordeb ar agor o 1 Medi 2017. Y dyddiad cau ar gyfer pob cais ydy 12.00, hanner dydd, 6 Tachwedd 2017.

Caiff ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer glywed yn ystod wythnos 4 Rhagfyr a'u gwahodd i gyflwyno cais llawn erbyn 5 Chwefror 2018.

Oes unrhyw gymorth ar gael i helpu gyda chyflwyno cais?

Oes. Os bydd angen unrhyw help arnoch chi gyda'r ieithwedd a'r derminoleg ar ein ffurflen gais neu os ydych am drafod a ydych yn gymwys ar gyfer Gwobr, cysylltwch â Clara Giraud (clara@artsadmin.co.uk) yn 'Artsadmin' neu ffonio **020 7247 5102**.

Os ydych am gymorth mynediad i lenwi'ch ffurflen gais, gallwn ni eich helpu.

Cysylltwch â Sara Dziadik yn 'Shape' ar 020 7424 7336 / sara@shapearts.org.uk.

Delivered by



**ARTS
ADMIN.**

Funded by



Supported using public funding by
**ARTS COUNCIL
ENGLAND**



Pam fod dau gam i'r broses o wneud cais?

Mae 'Unlimited' yn gofyn i ymgeiswyr gyflwyno cais Mynegi Diddordeb ac yna, dim ond yn gwahodd yr ymgeiswyr hynny sydd ar y rhestr fer i gwblhau ffurflen gais fwy manwl. Mae'r broses hon o ddau gam yn arbed amser i artistiaid, cynhyrchwyr ac aelodau'r panel dethol drwy ofyn i ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer yn unig i ddatblygu cynllun prosiect a chyllideb fanwl. Bydd gan ymgeiswyr ar y rhestr fer hefyd gyswllt uniongyrchol gydag aelod a enwir o Dîm 'Unlimited' er mwyn gofyn am gyngor ynglŷn â'u cais.

Pa mor gystadleuol ydy'r cyfleoedd hyn?

Mae 'Unlimited' yn disgwyl derbyn nifer fawr o geisiadau uchel eu hansawdd ac ni fyddwn yn gallu cyllido pob un o'r ceisiadau da byddwn yn eu derbyn. Yn 2016, derbynion ni nifer o geisiadau Mynegi Diddordeb – roedd 48 ar gyfer haen Prif Ymchwil a Datblygu a 100 ar gyfer haen Artist Datblygol. Rhoddwyd 15-16 ar y rhestr fer a dyfarnwyd cymorth i 5-6 prosiect ymhob haen.

Oes rhaid mod i wedi fy nghofrestru'n anabl i wneud cais?

Nac oes. Does dim cofrestr o bobl anabl yn bodoli bellach. Rydyn ni'n seilio'n gwaith ar Fodel Cymdeithasol o Anabledd. Os ydych diffinio neu'n ystyried eich hun yn berson anabl, yna rydych yn gymwys i wneud cais. Does dim angen i chi ddatgelu manylion eich anabledd na chyflwyno unrhyw dystiolaeth feddygol. I gael diffiniad o'r Model Cymdeithasol o Anabledd, ewch i wefan 'Shape':

www.shapearts.org.uk/News/social-model-of-disability

Dydy fy ymarfer artistig ddim yn gysylltiedig ag anabledd. A alla i ddal i wneud cais?

Gallwch. Croesewir ceisiadau gan artistiaid sy'n gweithio ym maes y celfyddydau anabledd, a gan yr artistiaid anabl hynny nad yw eu gwaith yn gysylltiedig ag anabledd a/neu nam. Mae 'Unlimited' yn ymwneud â chelfyddyd nid ag anabledd; gallai gwaith gyfeirio at anabledd, ar y llaw arall fod heb gyfeirio at anabledd.

A all unigolion / sefydliadau wneud cais?

- Artistiaid unigol:

Caiff artistiaid anabl unigol eu hannog i wneud cais. Ystyriwch sut bydd cyflwyno'ch prosiect, ei ariannu, ei weinyddu a'i gynhyrchu yn cael ei gynorthwyo. Rydyn ni'n argymhell bod artistiaid unigol yn gwneud cais gyda chynhyrchydd unigol neu sefydliad cynhyrchu eisoes tu cefn iddyn nhw.

- Sefydliadau a chwmnïau:

Nod comisiynau 'Unlimited' ydy cynorthwyo gwaith **gan** artistiaid anabl nid gwaith **ar gyfer** pobl anabl. Mae croeso i sefydliadau a chwmnïau wneud cais a rhaid iddyn nhw ddangos yn glir sut mae'r elfennau creadigol yn cael eu harwain gan bobl anabl.

Beth ydych chi'n ei olygu wrth ddweud 'arweinir gan anabledd'?

I ni yn 'Unlimited' mae'r term 'yn cael ei arwain gan anabledd' yn un hyblyg – rydyn ni'n disgwyl i ymgeiswyr ddangos yn glir sut mae'r elfennau creadigol yn cael eu harwain gan bobl anabl. Yr hyn sy'n allweddol ydy'r modd yr ydych yn mynegi'ch hun – mae angen i chi egluro sut mae 'cael ei arwain gan anabledd' yn berthnasol i'ch sefyllfa chi.

A fydda i'n gymwys i dderbyn arian a chymorth Mynediad i Waith* yn ystod y rhaglen?

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd a ddewiswyd ydy gwneud cais am arian Mynediad i Waith os oes angen cymorth ac os ydy'n berthnasol i'w sefyllfa. Rhagwelir, i fwyafrif yr artistiaid, y bydd costau gweithwyr cynnal a/neu cyfarpar/technoleg mynediad yn cael eu hariannu drwy gynllun Mynediad i Waith.

*Mynediad i Waith - Cynllun y llywodraeth ydy Mynediad i Waith gyda'r nod o gwrdd ag unrhyw gostau ychwanegol o gyflogi unigolyn anabl os ydy'r costau hynny yn ganlyniad uniongyrchol o namau'r unigolyn hwnnw. Am ragor o wybodaeth ewch i: www.gov.uk/access-to-work/overview

A fydd fy nghostau mynediad yn cael eu talu?

Dylai unrhyw gostau mynediad yr ewch iddyn nhw fel artist neu fel ymarferwr gael eu talu gan y cynllun Mynediad i Waith os ydych yn artist hunan-gyflogedig neu'n gweithio fel rhan o sefydliad neu gwmni. Dylech gynnwys y costau hyn yn eich cyllideb, fel gwariant ac incwm disgwylidig. Os nad ydych yn tynnu incwm o'ch gwaith, byddwn yn gweithio gyda chi i gwrdd â'ch costau mynediad os cewch eich dewis; cofiwch gynnwys y ffigyrau hyn yng nghyllideb eich prosiect.

A gaiff costau mynediad aelodau'r gynulleidfa eu talu?

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd ydy ystyried sut bydd eu gwaith yn hygyrch ar gyfer cynulleidfaedd a chyfranogwyr, a hynny yn eu cais llawn. Dylid sôn am y costau hyn yng nghyllideb eich prosiect.

Gall tîm 'Unlimited' gynnig cyngor pellach i chi ar sut y gellid cwrdd ag unrhyw ofynion mynediad i aelodau'r gynulleidfa os oes angen.

A alla i wneud cais ar y cyd gydag un neu fwy o gydweithwyr?

Gallwch, ond rhaid i'r gwaith arfaethedig gael ei arwain gan artist(iaid) anabl.

A alla i gyflwyno nifer o geisiadau?

Gallwch fod yr artist arweiniol mewn un cais.

Gallwch hefyd gael eich crybwyll fel cyflenwr mewn hyd at 2 gais arall (ar draws haen y Gwobrau Ymchwil a Datblygu a'r haen Datblygol).

A alla i wneud cais os ydw i wedi derbyn comisiwn 'Unlimited' o'r blaen?

Gallwch. Os ydych wedi derbyn prif wobwr, gallwch wneud cais am brosiect newydd neu wahanol. Os ydych wedi derbyn gwobr Ymchwil a Datblygu, gallwch wneud cais i barhau â'r prosiect hwnnw neu wneud cais am rywbeth hollol wahanol.

Os ydych wedi derbyn Gwobr 'Creu' i Artist Datblygol, gallwch wneud cais i barhau i wneud Ymchwil a Datblygu'r prosiect hwnnw, gwneud cais am rywbeth hollol wahanol neu wneud cais o dan yr haen 'Cyfranogi'.

Pa ffurfiau celf sydd yn gymwys?

Rydyn ni'n croesawu cynigion o bob maes celf; mae hyn yn cynnwys y celfyddydau gweledol, cerddoriaeth, y celfyddydau perfformio a llenyddiaeth. Mae ffilm yn gymwys dim ond os yw'n waith delwedd symudol ar gyfer oriel neu yng nghydestun gwaith celf yn hytrach nag ar gyfer y sinema. Os ydy'ch gwaith yn ymwneud â sinema, efallai dylech ddarllen argymhellion Cyngor y Celfyddydau ar ariannu ffilm: <http://www.artscouncil.org.uk/funding/other-sources-funding>

A alla i gyflwyno portffolio, adolygiadau, cyhoeddiadau neu sleidiau?

Na allwch. Dim ond cyflwyno'r deunydd ategol fel yr ydych wedi'i amlinellu ar y ffurflen gais. Gallwch ddarllen y fersiynau Word o bob ffurflen gais drwy eu lawrlwytho o: <http://weareunlimited.org.uk/apply-to-unlimited/>
Mae'r ffurflenni hyn yn rhestru'r hyn a all gael ei gyflwyno gyda'ch cais.

Am beth ydyn ni'n chwilio yn y camau Ymchwil a Datblygu?

Mae diddordeb gyda ni mewn Ymchwil a Datblygu sy'n edrych at i mewn ac at allan. Gallai hyn olygu ystyried syniad artistig a'r ffurf allai gymryd a hefyd, datblygu cysylltiadau gyda sefydliadau a all helpu i ddatblygu'r prosiect.

Sut ydw i'n amcangyfrif faint o arian yr ydw i'n gwneud cais amdano gan 'Unlimited'?

Bydd angen i chi greu amcangyfrif o gyllideb pob cam o'ch prosiect gan sicrhau eich bod yn cynnwys ffioedd proffesiynol pawb sy'n rhan o'r prosiect, costau mynediad, mynediad ar gyfer cynulleidfaoedd, marchnata, cynlluniau wrth gefn a mwy. Sylwch y dylai ffioedd gyd-fynd â safonau'r diwydiant gan ddilyn canllawiau undebau'r artistiaid ac asiantaethau'r diwydiant.

Yna, ystyried pob ffynhonnell incwm posibl, gan gynnwys partneriaid cyllido eraill (wedi'u cadarnhau neu'n ddisgwyliedig) mewn nwyddau a gweithred, grantiau gan sefydliadau eraill, a ffioedd am gyflwyno'r gwaith os ydy hynny'n berthnasol.

Y balans rhwng eich incwm a'ch gwariant ydy'r swm yr ydych yn gofyn amdano gan 'Unlimited'. Darllenwch flog yr ydyn ni wedi'i ysgrifennu am ddarparu mantolen [yma](#).

Pam bod gwahanol wobrau ddim ond yn agored i artistiaid a chwmnïau wedi'u lleoli mewn gwledydd penodol?

Mae pob gwobr yn cael ei hariannu gan wahanol gyllidwyr, felly, dim ond er budd yr artistiaid wedi'u lleoli yn y gwledydd hynny y gellir defnyddio'r arian.

Ydy'r comisiynau'n mynd i gael eu dosbarthu'n deg ar draws y DU?

Ydyn. Mae arian Cyngor Celfyddydau Lloegr a Chyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer artistiaid/cwmnïau sydd wedi'u lleoli yn Lloegr a Chymru.

Gallai Gwobrau'r Artist Datblygol ariannu gwaith ar draws Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, yn dibynnu ar leoliadau'r ceisiadau llwyddiannus; dydy lleoliad ddim yn faen prawf dethol ar gyfer y gwobrau hyn.

Pryd a sut y gwneir y penderfyniadau?

Caiff rhestr fer o Geisiadau Mynegi Diddordeb ei llunio gan banel o bobl broffesiynol y diwydiant a fydd yn defnyddio'r meini prawf a nodwyd yn y Cwestiynau Mynych ac yn y briff. Mae'r panel yn cynnwys cynrychiolwyr o bartneriaid allweddol a 5 aelod a ddewiswyd drwy broses o gais agored. Cewch ragor o wybodaeth am y modd y mae'r panelau'n gweithio a phwy sydd ar bob panel [yma](#). Mae staff 'Unlimited' yn cynorthwyo'r broses gwneud cais ond dydyn nhw ddim yn pleidleisio yn y broses ddethol derfynol.

Hysbysir pob ymgeisydd a ydyn nhw ar y rhestr fer ai peidio erbyn 4 Rhagfyr 2017. Gwahoddir ymgeiswyr ar y rhestr fer i gyflwyno ceisiadau llawn, gan ddarparu rhagor o wybodaeth fanwl am eu prosiect erbyn 5 Chwefror 2018.

Bydd paneli pob comisiwn a gwobr yn cwrdd yn ystod mis Mawrth 2018 a chyhoeddir y gwobrau ddiwedd Mawrth 2018.

Ble alla i ddod o hyd i gynhyrchydd?

Rydyn ni'n argymhell i chi gysylltu â phobl yr ydych chi'n nabod eisoes a chysylltu â'ch rhwydweithiau i weld a fyddai gan unrhywun sy'n gyfarwydd â'ch ymarfer ddiddordeb mewn cefnogi'ch prosiect. Neu, mae ganddon ni rhifau cyswllt cynhyrchwyr a fyddai'n barod i drafod darpar brosiectau 'Unlimited'. (e-bostiwch james@artsadmin.co.uk am y wybodaeth hon), neu, gallech chi hysbysebu drwy lwyfan megis yr 'Artsadmin e-digest': <http://artsadmin.co.uk/resources/e-digest>. Darllenwch ragor am yr hyn y gallai cynhyrchydd ei olygu i'ch prosiect drwy'r blogiau hyn: "[What do we mean by producer?](#)", "[This thing called producing](#)", a "[Working with a Producer](#)".

Ffurflenni Mynegi Diddordeb: pa fath o wybodaeth ddylai 'Disgrifiad o'r Prosiect' ei gynnwys?

Dyma adran y ffurflen lle rydych yn dweud wrthon ni am y prosiect yr hoffech chi i 'Unlimited' ei gynorthwyo. Dwedwch wrthon ni am eich syniad ac ym mha faes yr ydych yn anelu ei gyflenwi. Cofiwch fod 'Unlimited' yn gweithio ar draws pob maes celf, ar bob graddfa, felly, byddwch yn glir am y math o waith yr ydych am ei greu ac ar gyfer pa sefyllfa fydd y 'cynnyrch terfynol' yn addas. Dylai'r adran fer hon roi syniad clir i'r panel dethol o'r hyn yr ydych yn ceisio'i wneud neu ei greu heb roi gormod o fanylion. Os caiff eich cais ei roi ar y rhestr fer, cewch eich gwahodd i ddarparu rhagor o fanylion am eich prosiect a sut y byddwch yn ei gyflenwi.

A all 'Unlimited' roi cyngor i mi am sgrifennu cais da?

Mae Tîm 'Unlimited' ar gael i'ch cynorthwyo ac ateb eich cwestiynau am y broses o wneud cais. Dydyn nhw ddim yn gallu'ch cyngori ar gynnwys y cais ar y cam hwn na chwaith ddarllen drafft o'ch cais. Ond, mae ganddon ni ystod o adnoddau ar ein blog am yr hyn sy'n gwneud cais cryf am gyllid:

- [Sharing a vision](#)
- [Ambition vs Realism](#)
- [Being the right match](#)

Does gen i ddim dogfennaeth am fy ngwaith – a alla i ddal i wneud cais?

Na allwch. Mae rhaid i chi allu dangos enghreifftiau o'ch gwaith i'r panel dethol gan ddefnyddio naill ai delweddau llonydd, sain, dogfennaeth fideo a/neu ddogfennau ysgrifenedig.

A gaf i fy nghosbi am gyflwyno un enghraifft yn unig o fy ngwaith/un ddogfen ar y porth cais ar-lein?

Na chewch, caiff y gwaith ei farnu ar ei ansawdd a'i berthnasedd, nid ar y nifer o ddogfennau ategol a gyflwynir. Fe'ch cynghorir i gyflwyno'ch gwaith(gweithiau) gorau.

Does gen i ddim gwefan fy hun – a alla i ddal i wneud cais?

Gallwch. Ond rhaid fod gennych broffil wedi ei sefydlu gyda thystiolaeth berthnasol o'ch cysylltiadau, neu lythyr cymeradwyo neu brawf o sylw yn y wasg.

Ydw i angen arian cyfatebol wedi'i drefnu cyn galla i wneud cais?

Does dim angen i ymgeiswyr am Brif Wobr Ymchwil a Datblygu fod ag arian cyfatebol. Fodd bynnag, mae'r grantiau'n brin ac felly gallai arian cyfatebol – wedi'i gadarnhau, ei geisio neu'n cael ei ragweld – gryfhau eich cais, naill ai'n arian neu'n daliad mewn

nwyddau a gwasanaeth. Does **dim modd** defnyddio Grantiau i'r Celfyddydau neu gyllid seiliedig ar brosiect gan Gyngor Celfyddydau Cymru neu Gyngor Celfyddydau Lloegr, fel arian cyfatebol.

Beth ydyn ni'n ei olygu wrth sôn am artistiaid anabl a chwmnïau i'r anabl gyda hanes blaenorol cadarn yn eu maes celfyddydau?

Rydyn ni'n chwilio am artistiaid a chwmnïau sydd wedi arddangos gweithiau yn eang yn gyhoeddus, gan gael derbyniad cadarnhaol iawn. Gall artistiaid a chwmnïau sydd yn nyddiau cynnar eu gyrfaedd celfyddydol wneud cais am Wobr Artist Datblygol gan 'Unlimited'.

Pa feini prawf sydd ar waith yn y broses ddethol?

Dyma'r Meini Prawf Allweddol:

- wedi ei arwain gan anabledd
- ansawdd, arloesedd ac uchelgais
- hanes blaenorol cadarn o greu gwaith a chyrraedd cynulleidfaoedd
- cydweithredu a phartneriaethau sy'n bodoli (gall rhain gynnwys rhai heb fod â chysylltiad â chwmnïau/artistiaid/cynhyrchwyr ym maes anabledd) – neu gynlluniau i ddatblygu rhain drwy gyfrwng yr ymchwil a datblygu
- yr artist arweiniol neu'r cwmni'n byw yng Nghymru neu Lloegr

Gobeithiwn allu cefnogi ystod o syniadau o ran ffurf y gelfyddyd, graddfa a lleoliad – ar draws yr holl wobrau Ymchwil a Datblygu.

Sawl Gwobr Ymchwil a Datblygu fydd 'Unlimited' yn ariannu yn y rownd hon?

Mae 'Unlimited' yn bwriadu ariannu rhwng pump a saith Prif Wobr Ymchwil a Datblygu ar draws Lloegr a Chymru.



I fod yn gymwys am Wobr wedi'i chefnogi gan 'Wellcome', oes raid i fy mhrosiect arfaethedig gynnwys enw ymchwilydd o faes iechyd, biofeddygol neu wyddonol?

Nac oes, does dim angen cynnwys enw'r ymchwilydd ar y cam hwn. Bydd angen i geisiadau am y Wobr a gefnogir gan 'Wellcome' arddangos posibilrwydd o bartneriaeth o ryw fath ag ymchwilydd neu glinigydd o faes iechyd, biofeddygol neu wyddonol. Esiampiau o hyn fyddai sgysiau agoriadol neu fanylion y sefydliad, ymchwilydd neu glinigydd rydych am ei (g)wahodd a'r modd byddai'r partneriaid hyn yn rhan o ddatblygu'r syniad. Mae gan 'Wellcome' ddiddordeb arbennig mewn cynigion sy'n trysori mewnbwn a safbwyntiau pob partner. Lle bydd 'Wellcome' yn teimlo fod syniad yn un cryf ond angen mwy o fewnbwn gan bartner iechyd neu ymchwil, efallai gall 'Wellcome' helpu i adeiladu perthynas ag ymchwilydd/clinigwyr addas.

Oes raid i mi geisio am y wobwr gefnogir gan 'Wellcome' os ydy fy mhrosiect yn ymwneud â themâu ym maes iechyd?

Nac oes. Gall eich prosiect ymwneud â themâu iechyd ond heb fod yn cwrdd â meini prawf eraill y wobwr gefnogir gan 'Wellcome' neu gallwch ddewis peidio â cheisio am wobwr gefnogir gan 'Wellcome' er fod themâu o'r fath yn eich prosiectau. Fydd hyn ddim yn effeithio ar eich prosiect rhag cael ei ystyried am y Prif Wobrau Ymchwil a Datblygu gefnogir gan Gyngorau Celfyddydol Cymru na Lloegr.